Cofnodion Cyfarfod o Gyngor Llawn Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, ddydd Mercher 25ain Chwefror 2009 am 7.30pm

Presennol: Y Maer y Cyng Edward Thomas, y Dirprwy Faer y Cyng Charlotte Leadbeater, y Cyng Colin Jenkins, y Cyng Ros Bellamy, y Cyng Julia Jones, y Cyng Chris Parish, y Cyng Ieuan Gwyn, y Cyng Dawn Wallace, y Cyng Fran Murphy, y Cyng Roy Davies.
Mr Roger Phillips (Clerc y Dref)
Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr Des Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Y Cyng Richard Wallace, y Cyng Hugh Towns.

Cyn y cyfarfod, fe wnaeth cynrychiolydd o Shelter Cymru annerch y Cyngor ar brosiect i amlygu digartrefedd mewn cymunedau gwledig. Byddai'r wybodaeth yn y ffeil prosiect yn cael ei chylchlythyru i leoliadau cyhoeddus. Roedd Cyngor Sir Caerfyrddin yn cydweithredu â Shelter Cymru trwy benodi Swyddog Galluogi Tai Gwledig.

Nid oedd unrhyw Faterion yr Heddlu.

Cof 262 / Chwefror /09 Adroddiad y Cynghorydd Sir.
Dywedodd y Cynghorydd Sir Ieuan Jones y dylai unrhyw safbwyntiau yn ymwneud â Chynllun Datblygu Lleol CSC cael eu hanfon at Jon Timothy o'r Tîm Rhag-gynllunio, neu dylid trefnu dirprwyaeth i gwrdd ag e.
Gofynnodd y Cyng Roy Davies os gallai Cynghorwyr gymryd rhan yn y Prosiect Tywi Afon yr Oesoedd. Dywedodd y Cynghorydd Sir gan fod y prosiect wedi ei leoli yn swyddfeydd y Cyngor ar Heol Cilgant, byddai'n bosib trefnu i gwrdd â thîm y prosiect.
Byddai cyfarfod cyhoeddus yn cael ei gynnal yn Ysgol Tregib ar y 26ain Chwefror i drafod yr adrefnu arfaethedig o ysgolion.
Awgrymodd y Cynghorydd Sir Jones y dylai'r Cyngor Tref gysylltu â Jason Lawday, y ceidwad dynodedig ynghylch unrhyw ymholiadau yn ymwneud â llwybrau troed.

Cof 263 / Chwefror/ 09 Cofnodion Blaenorol
Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion o Gyfarfod o'r Cyngor Llawn a gynhaliwyd yn Siambr Neuadd y Sir ddydd Mercher, 28ain Ionawr, 2008 yn gofnod cywir gan ychwanegu enwau'r Cynghorwyr canlynol a oedd yn bresennol yn y cyfarfod :-
Y Dirprwy Faer y Cyng Charlotte Leadbeater, y Cyng Julia Jones, y Cyng Christopher Parish.
Cynigwyd gan y Cyng Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng Julia Jones.
Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion Cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr Neuadd y Sir ddydd Mercher 11eg Chwefror 2008 yn gofnod cywir ond na fyddai'r argymhelliad o dan Gofnod 251/Chwefror/09 i argymell y digwyddiad haf arfaethedig i'r Cyngor Llawn yn cael ei dderbyn nes bod trafodaeth bellach yng nghyfarfod y Cyngor Llawn.
Cynigiwyd gan y Cyng Charlotte Leadbeater ac eiliwyd gan y Cyng Roy Davies. Roedd

pawb o blaid.
Darllenwyd a chadarnhawyd Cofnodion Cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd yn Siambr Neuadd y Sir ddydd Mercher 11eg Chwefror 2009 yn gofnod cywir gan argymell eu derbyn gyda'r newid canlynol :-
Cof 225 / Chwefror / 09 – ychwanegu at y biliau i'w talu.
Des Davies (deunyddiau cynnal a chadw swyddfa) *£ 20.94*
Cynigiwyd gan y Cyng Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn. Roedd pawb o blaid.

Cof 264 / Chwefror / 09 Materion yn codi o gyfarfodydd blaenorol
Parth. Cof 251/ Chwefror / 09 Atgoffodd y Cyng Ieuan Gwyn y gweithgorau a'r is-grwpiau y dylent adrodd yn ôl yn uniongyrchol i'r Cyngor Llawn ac nid i Bwyllgorau.

Cof 265/ Chwefror/ 09 Gohebiaeth sydd angen ei ateb

1. Arolwg Anheddiad CSC. Byddai'r Cadeirydd Cynllunio yn cwblhau'r holiadur.
2. Un Llais Cymru. Gwahoddiad i Barti Gardd Palas Buckingham. Byddai'r Maer yn gwneud cais.
3. Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed parth. Prosiect Archwilio Tywi. Cynnig i wirfoddolwyr ymuno yn y gweithgareddau, byddai'r Cyng Roy Davies yn cysylltu â'r Ymddiriedolaeth parthed datblygu'r archwiliad ar y Llwybr Treftadaeth.
4. Arwydd bostion Twristiaeth CSC. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu â'r Cynghorydd Sir Ieuan Jones parthed y costau.
5. Taflen newyddion Prosiect Tywi Afon yr Oesoedd. Nodwyd
6. Manylion grant Prosiect Tywi Afon yr Oesoedd. Byddai'r Cyng Roy Davies yn cysylltu â'r Ceidwad dynodedig Jason Lawday parthed datblygu llwybr troed estynedig.
7. Cynllun Datblygu Lleol CSC – Cyhoeddi cofrestr o'r safleoedd sy'n gwneud cais. Byddai'r Cyng Colin Jenkins a'r Cyng Roy Davies yn trefnu cyfarfod â'r tîm Rhag-gynllunio.

Cof 266/Chwefror/ 09 Gohebiaeth er Gwybodaeth.

1. Ateb Catrin Howells i gais y Cyngor am anfonebau, i'w anfon ymlaen mor fuan â phosib. Nodwyd
2. Manylion y cwrs am dystysgrif mewn gweinyddiaeth cynghorau lleol. Nodwyd.
3. Llywodraeth Cynulliad Cymru - Hysbysiad am gyfarfod Confensiwn Cymru Gyfan yng Nghaerfyrddin ar Fawrth 5ed. Nodwyd.
4. Diwrnod agored Llysoedd Ynadon Llanelli Mawrth 4ydd. Nodwyd.

Cof 267 / Chwefror /09 Nid oedd unrhyw Faterion Ariannol

Cof 268 / Chwefror / 09 Adroddiad y Swyddog Technegol.
Cyflwynodd Mr Davies adroddiad cynhwysfawr ar y materion canlynol :-

i) Hawliau Tramwy Cyhoeddus. Byddai'r Clerc yn cysylltu â'r Ceidwad dynodedig.
ii) Goleuadau Nadolig. Byddai'r Swyddog Technegol yn cwrdd â chynrychiolydd o'r Asiantaeth Cefnffyrdd i baratoi datganiad dull ar gyfer codi goleuadau ar hyd heol Rhosmaen y flwyddyn nesaf.
iii) Cwrt blaen Neuadd y Sir. Byddai'r adeiladwr, Mr Moses, yn darparu adroddiad ar y gwaith gofynnol er mwyn atal dŵr rhag treiddio trwy'r wal flaen a'r portico.

iv) Boeler Neuadd y Sir. Roedd Mr Davies wedi rhoi 14 diwrnod i Lorne Stewart gwblhau'r gwaith cynnal a chadw blynyddol. Os na fydd y gwaith wedi ei wneud erbyn hynny, byddai wedyn yn cysylltu â chwmni arall.
v) Toiledau Neuadd y Sir. Cytunwyd y dylai contractwyr lleol wneud archwiliad ac awgrymu ffyrdd o leihau anwedd.
vi) Cytunwyd y dylid cysylltu â Mr Phil Wait i oedi cyn ffitio'r arwyddion i'r portico nes bod gwaith adfer wedi ei wneud.

Cof 269 / Chwefror / 09 Cludiant a Phriffyrdd

1. Ian Brachans parth peryglon traffig ar gyffordd yr A40. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn anfon llythyr ymlaen i adran Priffyrdd CSC gyda sylwadau o gefnogaeth. Byddai'r llythyr yn cael ei anfon ymlaen i'r Cynghorydd Sir Ieuan Jones a Sarjant Ian Williams, Heddlu Llandeilo am eu sylwadau.
2. Trevor Sage, Swyddog CSC yn rhoi gwybod y bydd Heol Caerfyrddin yn cau dros dro. Nodwyd.
3. Soniodd y Cyng Colin Jenkins am y niwsans o faeddu gan gŵn ym Mharc Penlan. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn ysgrifennu at Paul Morris, Swyddog yr Amgylchedd CSC i ofyn i warchodwyr erlyn perchnogion cŵn sy'n troseddu.

Cof 270 / Chwefror / 09 Gwerthusiadau Staff

Roedd y Cyng Hugh Towns wedi cynhyrchu adroddiad drafft a gylchlythyrwyd i Gynghorwyr. Gan nad oedd sylwadau'r staff wedi eu hystyried, cynigwyd gan y Cyng Roy Davies y dylid gohirio ystyried yr adroddiad nes cyfarfod nesaf y Cyngor Llawn ym mis Mawrth. Eiliwyd gan y Cyng Colin Jenkins. Gan y byddai hyn yn cynnwys manylion personol a sensitif sy'n ymwneud â staff cytunwyd eithrio'r wasg a'r cyhoedd. Roedd pawb o blaid.

Cof 271/ Chwefror / 09 Adroddiad y Maer.

Adroddodd y Cyng Edward Thomas ar yr achlysuron a fynychwyd ar ran y Cyngor yn ystod y mis. Adroddodd y Maer ar y cyfarfod diweddar a gynhaliwyd ar y cyd â Chyngor Cymuned Dyffryn Cennen, Adam Price AS a Rhodri Glyn Thomas AC. Byddai'r pwyntiau gweithredu canlynol yn cael eu rhoi ar Agendâu Pwyllgorau o hyn ymlaen

- Cynllun Rheoli Traffig i'w drafod ar y cyd â Dyffryn Cennen
- Prosiectau Lleol i'w paratoi cyn 2012, pan ddylai grantiau fod ar gael yn dilyn Gemau Olympaidd Llundain. Gallai'r rhain gynnwys awgrymiadau am gyfleusterau hamdden newydd.

Byddai'r Cyng Thomas yn cynhyrchu adroddiad i'w drafod gan y Cyngor. Byddai'n ysgrifennu at Clive Scourfield, aelod o Fwrdd Gweithredol CSC i ofyn am adroddiad ar y sefyllfa bresennol parthed gwerthu Neuadd y Farchnad.
Byddai ymwelwyr o efeilldref Llandeilo, Le Conquet, Brittany, yn cael eu diddanu ddydd Llun 11eg Ebrill gyda derbyniad yn Eglwys Teilo Sant am hanner dydd. Cynigodd y Dirprwy Faer y Cyng Charlotte Leadbeater a'r Cyng Chris Parish i helpu i weini'r bwyd.

Cof 272 / Chwefror / 09 Adroddiadau Eraill

i) Is-grŵp goleuadau Nadolig.
Adroddodd y Cyng Chris Parish ar y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 17eg Chwefror. Byddai'r Asiantaeth Cefnffyrdd yn gosod amodau ar godi goleuadau Nadolig ar hyd Heol Rhosmaen. Byddai rheoli traffig yn angenrheidiol a gallai hyn

ychwanegu £1000 at y costau. Argymhellodd yr is-grŵp y dylid prynu dwy goeden nNadolig ar gyfer y prif ardaloedd arddangos. Byddai Prospect Builders yn cael cais i ddarparu a chodi'r rhain. Y dyddiad ar gyfer troi'r goleuadau ymlaen fyddai'r 20fed Tachwedd. Byddai cystadleuaeth Arddangosfa ffenest yn cael ei threfnu gyda'r beirniadu ar yr 16eg Tachwedd. Byddai'r wobr gyntaf yn £50, yr ail wobr yn £30 a thrydedd wobr o £20. Byddai Band Pres Rhydaman a Chôr Teilo Sant yn darparu'r adloniant. Byddai'r Heddlu, y Ford Gron ac Ambiwlans Sant Ioan yn cael cais i gynorthwyo ar y noswaith.

ii) Adroddiad yr Is-grŵp Tân Gwyllt.
Cytunwyd y dylid gofyn i Glwb Rygbi Llandeilo am ganiatâd i gynnal yr arddangosfa nesaf ar ddydd Gwener, 6ed Tachwedd. Roedd Mr Geraint Price wedi cytuno i fod yn gyfrifol am gynnau'r tân gwyllt. Byddai angen i'r grŵp gael system gyfathrebu well i gadw cyswllt â phawb a oedd yn helpu gyda'r arddangosfa.
Cynigwyd gan y Cyng Chris Parish ac eiliwyd gan y Cyng Colin Jenkins y dylai meicroffonau a chlustffonau gael eu prynu am £227. Roedd pawb o blaid.
Argymhellwyd na ddylid cynhyrchu rhaglen ar gyfer y digwyddiad. Byddai'r tâl mynediad yn aros yn £2 yr oedolyn.
Cynigiwyd gan y Cyng Christopher Parish ac eiliwyd gan y Cyng Julia Jones y dylai tân gwyllt gwerth hyd at £3,750 gael eu harchebu ar gyfer yr arddangosfa. Roedd pawb o blaid.

iii) Is-grŵp Digwyddiadau'r Haf ym Mharc Penlan.
Rhoddodd y Clerc adroddiad ar gyfarfod a gynhaliwyd â Huw Parsons, Rheolwr Twristiaeth CSC. Roedd Mr Parsons wedi gwerthuso'r cynigion a gyflwynwyd gan y Clerc i gynnal digwyddiad 'Revels in the park' ar yr 20fed Mehefin a chynigodd i gynorthwyo'r Cyngor i drefnu'r digwyddiad. Byddai CSC yn gweithio mewn partneriaeth â'r Cyngor i ddarparu digwyddiad di-dâl i'r Dref. Byddai gan y digwyddiad arfaethedig thema ganoloesol anifeiliaid a thylwyth teg. Byddai'n dechrau gyda pharêd o blant ysgol a band gorymdeithio. Yn y Parc byddai stondinau elusennol, gweithgareddau i blant ac eitemau cerddorol gan ysgolion a chorau lleol.
Cynigwyd hwn fel y cyntaf mewn cyfres o dri digwyddiad i'r Haf i'w cynnal yn y parc.
Cynigodd y Cyng Ieuan Gwyn y dylai'r is-grŵp ofalu fod y Cyngor yn cael gwybodaeth gyson ar yr holl drefniadau. Eiliwyd gan y Cyng Ros Bellamy. Roedd pawb o blaid.

Cof 273 / Chwefror / 09 I Dderbyn Enwebiadau am Faer ar gyfer 2009-10

Cynigodd y Cyng Ros Bellamy y Cyng Charlotte Leadbeater, Y Dirprwy Faer presennol yn Faer ar gyfer y Flwyddyn 2009-10. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng Fran Murphy. Roedd pawb o blaid. Derbyniodd y Cyng Charlotte Leadbeater yr enwebiad.

Cof 274 / Chwefror /09 I Dderbyn Enwebiadau am Ddirprwy Faer ar gyfer 2009-10

Cynigodd y Cyng Colin Jenkins y Cyng Christopher Parish yn Ddirprwy Faer ar gyfer y Flwyddyn 2009-10. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng Julia Jones. Roedd pawb o blaid. Derbyniodd y Cyng Christopher Parish yr enwebiad.

Cof 275 / Chwefror /09 Unrhyw eitemau eraill o fusnes sydd oherwydd amgylchiadau arbennig yn ôl y Cadeirydd yn haeddu sylw brys yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Trafododd y Cynghorwyr ohebiaeth a dderbyniwyd gan y Cyng Hugh Towns parthed cyfyngiadau amser oherwydd ymrwymiadau gwaith. Cynigodd y Cyng Colin Jenkins y dylai'r Cyng Towns gael pedwar mis o absenoldeb. Eiliwyd gan y Cyng Charlotte Leadbeater. Roedd pawb o blaid.
Dywedodd y Cyng Fran Murphy ei bod wedi adolygu'r llyfryn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar Gynlluniau Cyhoeddiadau a byddai'n gofyn i'r Clerc a'r Swyddog Cyllid lenwi ffurflenni yn ôl y gofyn.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.40pm